# BWRDD CYLLID ESGOBAETH TYDDEWI
# ST DAVIDS DIOCESAN BOARD OF FINANCE
# CYFRIFON BLYNYDDOL | ANNUAL ACCOUNTS
# 2025



✠ Yn gwasanaethu cymunedau ffydd ledled Esgobaeth Tyddewi ✠
✠ Serving communities of faith across the Diocese of St Davids ✠

Paratowyd gan / Prepared by
ADRAN GYLLID / FINANCE DEPARTMENT

Rhif Cwmni Company No: 242794 | Rhif Elusen Charity No: 231239

Ebost / Email: finance.stdavids@cinw.org.uk
**ESGOBAETH TYDDEWI | DIOCESE OF ST DAVIDS**
**YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES**

**Cynhadledd Esgobaethol Tyddewi**
Swyddfa'r Esgobaeth
Abergwili, Caerfyrddin SA31 2JG

**St Davids Diocesan Conference**
Diocesan Office
Abergwili, Carmarthen SA31 2JG

Ffôn / Tel: 01267 236145
Ebos / Email: Diocese.stdavids@churchinwales.org.uk

Ysgrifennydd Clerigol **Paul Mackness** Clerical Secretary
Ysgrifennydd yr Esgobaeth **Iwan Thomas** Diocesan Secretary

Gorffennaf 2026 / July 2026

Annwyl Aelod / Dear Member

*Mae'r cyfrifon a gynhwysir yn y ddogfen hon yn grynodeb o gyfrifon ariannol Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.*

The accounts information contained in this document is a summarised version of the financial statements of the St Davids Diocesan Board of Finance for the year ended 31 December 2025.

*Mae'r wybodaeth wedi'i thynnu o'r cyfrifon archwiliedig ond nid yw'r ddogfen gryno hon wedi'i harchwilio ar wahân.*

The information has been extracted from the audited financial statements but this summarised document has not been audited separately.

*Gellir cael copi o'r cyfrifon llawn oddi wrth Swyddfa'r Esgobaeth drwy wneud cais.*

A copy of the full financial statements is available from the Diocesan Office upon request.

Yn gywir / Yours faithfully

**Mr T J Llewelyn**
Cadeirydd y Bwrdd / Chairman of the Board

✠ Ffydd • Llawenydd • Cenhadaeth ✠
Faith • Joy • Mission

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025**

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad cyfarwyddwyr blynyddol ynghyd â datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025, sydd hefyd yn cael eu paratoi i fodloni'r gofynion ar gyfer adroddiad cyfarwyddwyr a chyfrifon at ddibenion y Ddeddf Cwmnïau.

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y nodiadau i'r cyfrifon ac maent yn cydymffurfio â dogfen lywodraethu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006 ac "Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice applicable to charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland" (FRS 102) (ar waith ers 1 Ionawr 2019)

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol, ynghyd â'r datganiadau ariannol archwiliedig, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

Mae'r cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr yr un, ac wrth lofnodi fel Ymddiriedolwyr maent hefyd yn llofnodi adrannau adroddiad y cyfarwyddwyr yn rhinwedd eu rolau fel cyfarwyddwyr.

Mae'r adroddiad cyfunol hwn yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ar gyfer:

- Adroddiad Cyfarwyddwyr cwmni elusennol ac
- Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o dan Ddeddf Elusennau 2011.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Prif weithgaredd yr elusen yw hyrwyddo a chynorthwyo amcanion, gwaith a busnes yr Eglwys yng Nghymru yn gyffredinol yn Esgobaeth Tyddewi.

Amcanion allweddol Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi (y Bwrdd) yw:

- Sicrhau bod digon o refeniw i gynnal lefel y Genhadaeth a'r Weinidogaeth ar gyfer yr Esgobaeth

- Rheoli Portffolio buddsoddiadau'r Esgobaeth er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng incwm a thwf cyfalaf, heb gymryd risg ormodol

- Rheoli'r eiddo sy'n eiddo i'r Bwrdd ac a freiniwyd iddo

- Galluogi gwasanaeth effeithlon, proffesiynol a gweinyddol ar draws ystod o swyddogaethau gweinyddol gan gynnwys:

  - rheoli ymddiriedolaethau a chronfeydd eraill a ddelir gan y Bwrdd

  - trefnu Cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yr Esgobaeth

- cynnal cronfeydd data, gwybodaeth rheoli a chydymffurfiaeth ddeddfwriaethol

- darparu cyngor a chymorth ar ystod o faterion

Ar gyfer 2025 y prif amcanion oedd:

- **Perfformiad y Gronfa** – Gwneud enillion asedau yn unol â'r % y cytunwyd arno gyda Chynghorwyr Buddsoddi'r Bwrdd ac sy'n cymharu'n ffafriol â meincnodau y cytunwyd arnynt.

- **Cronfeydd wrth gefn –** Cynnal y lefel y cytunwyd arno o gronfeydd wrth gefn yn y Gronfa Gyffredinol Anghyfyngedig.

- **Sefydlogrwydd Ariannol** – Parhau i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a galluogi cost y Weinidogaeth i'r Esgobaeth.

- **Strategaeth yr Esgobaeth –** Cysylltu â'r Esgob a'i uwch staff, i gynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu Strategaeth yr Esgobaeth a fydd yn ymateb i'r heriau ariannol, economaidd a gweinidogaethol presennol sy'n wynebu'r Eglwys a diwallu anghenion yr Esgobaeth.

Mae amcanion tymor byr y Bwrdd fel y nodir uchod.

Yn yr hirdymor, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o sicrhau bod y newidiadau gweinidogol a strwythurol a gynigir yn Strategaeth yr Esgobaeth yn adlewyrchu'r meddylfryd cyfredol.

## BUDD I'R CYHOEDD

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod y Bwrdd yn darparu manteision y gellir eu nodi i'r cyhoedd yn unol ag amcanion sefydledig a gweithgareddau a ganiateir. Maent wedi cyfeirio at y canllawiau a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd wrth adolygu eu nodau a'u hamcanion ac wrth gynllunio eu gweithgareddau yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y bydd gweithgareddau a gynlluniwyd yn cyfrannu at y nodau a'r amcanion y maent wedi'u gosod. Mae swm wedi'i ymrwymo ar gyfer ariannu prosiectau sy'n gysylltiedig â Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn y gymuned ehangach.

## POLISÏAU GWNEUD GRANTIAU

Mae'r Bwrdd yn cytuno ar bob grant a wneir.

## CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

- **PERFFORMIAD BUDDSODDI**
  - **Perfformiad Portffolio yr Esgobaeth**

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

Cafwyd dechrau cryf i'r marchnadoedd ecwiti yn 2025, a gafodd eu hybu gan dwf enillion economaidd a chorfforaethol gwydn, ond cafwyd cwymp sydyn ym mis Ebrill yn dilyn cyhoeddiadau tariff ysgubol Arlywydd yr Unol Daleithiau Donald Trump. Roedd buddsoddwyr yn pryderu y byddai'r tariffau yn achosi i dwf economaidd byd-eang ostwng a chwyddiant i godi. Wrth i densiynau masnach ddwysáu, fodd bynnag, ac wrth i Trump roi'r gorau i rai o'i fygythiadau cychwynnol, sefydlodd y marchnadoedd unwaith eto, gyda'r trywydd yn ôl ar i fyny.

Roedd Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn parhau i fod yn thema amlwg iawn, gyda marchnadoedd yn ceisio gwahaniaethu rhwng yr enillwyr a'r collwyr. Mae hyn wedi arwain at symudiad sylweddol o fewn y farchnad, gyda chwmnïau meddalwedd dan y lach yn wyneb ofnau y gallai eu busnesau gael eu heffeithio'n andwyol gan AI, tra bod cyfranddaliadau mewn cwmnïau lled-ddargludyddion wedi perfformio'n gryf.

Cynhaliodd marchnadoedd ecwiti byd-eang eu momentwm cryf hyd at ddiwedd y flwyddyn, gyda'r Mynegai FTSE Byd-eang yn cau'r flwyddyn yn agos at yr uchafbwyntiau uchaf erioed, gyda chefnogaeth enillion corfforaethol gwydn ac esmwytho o'r newydd gan y banc canolog. Perfformiodd bondiau'r llywodraeth a bondiau corfforaethol hefyd yn dda dros y flwyddyn, gan elwa ar yr Unol Daleithiau a'r DU yn torri eu cyfraddau llog.

Ar y cyfan, cynhyrchodd portffolio Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi enillion da ar gyfer y flwyddyn ac roedd i fyny 9.2%, gyda'r holl ddosbarthiadau o asedau yn y portffolio yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei berfformiad. Yn ogystal â bondiau ac ecwiti, roedd aur hefyd yn berfformiwr aruchel (i fyny 54%), wedi'i yrru gan brynu cynyddol gan y banc canolog o wledydd sy'n ceisio lleihau eu dibyniaeth ar yr Unol Daleithiau.

- **Eiddo Buddsoddi**
  Mae'r eiddo buddsoddi wedi'i ailbrisio'n annibynnol ar 31 Rhagfyr 2025 gan brisiwr proffesiynol ar sail gwerth marchnad agored y tir rhydd-ddaliadol a'r adeiladau at ddibenion buddsoddi ac mae'n rhagori ar y gost hanesyddol o £2,970,263. Os caiff ei werthu, nid oes unrhyw rwymedigaethau trethiant hysbys.

- **Eiddo Rhydd-ddaliadol Cyfyngedig**
  Mae'r eiddo rhydd-ddaliadol cyfyngedig yn cynnwys dau ysgoldy a phedair hen ysgol ar brydles. Cafodd yr eiddo eu prisio yn 2025 gan brisiwr annibynnol.

- **CEFNOGI'R WEINIDOGAETH**

| Lefelau Cyflogau Clerigion | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Curad Cynorthwyol | 25,456 | 24,244 |
| Periglor a Ficer | 29,948 | 28,522 |
| Rheithor Bywoliaeth Reithorol | 31,445 | 29,948 |
| Canon Preswyl | 34,440 | 32,800 |
| Archddiacon | 45,820 | 43,639 |
| Deon | 46,419 | 44,209 |

Derbyniodd y Bwrdd grant tuag at Gost y Weinidogaeth gan Gorff y Cynrychiolwyr.

Hyd at 31 Rhagfyr 2006, roedd Corff y Cynrychiolwyr yn ariannu cyfanswm costau pensiynau clerigion, ond ers hynny, y Bwrdd sydd wedi bod yn talu am gost cyfraniadau pensiwn clerigion cyfredol. Hanner ffordd trwy 2021 bu newid polisi gyda'r costau pensiwn ar gyfer dau chwarter olaf 2021 yn cael eu netio yn erbyn y grant bloc a dderbyniwyd gan Gorff y Cynrychiolwyr. Cynhaliodd Corff y Cynrychiolwyr adolygiad o bensiwn clerigion yn 2020, a arweiniodd at gyfraniad gostyngol o 36.5% o 38.8% o gyflogau. Mae'r Bwrdd yn parhau i dalu costau hyfforddiant yn y weinidogaeth ar y cyd â Chorff y Cynrychiolwyr.

Nifer y swyddi clerigol cyflogedig yn yr Esgobaeth ar 31 Rhagfyr 2025 oedd 71.

Derbyniodd y Bwrdd y gefnogaeth ganlynol gan Gorff y Cynrychiolwyr:

- Gweinyddu talu'r Dreth Gyngor ar Bersondai
- Cymorth TG ac AD
- Gweinyddu Cyflogau
- Cyngor ar ddyletswyddau statudol e.e., Rhentu Doeth Cymru, Diogelu Data
- Diogelu

## ADOLYGIAD ARIANNOL

- **Y SEFYLLFA ARIANNOL GYFFREDINOL**

Dangosir canlyniadau'r flwyddyn ar dudalennau 22 i 23 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cofnododd y Cronfeydd Cyffredinol Anghyfyngedig ddiffyg o £94,622, gyda gwariant yn uwch nag incwm cyn enillion buddsoddi a symudiad ailbrisio.
Yn ystod y flwyddyn, cydnabu'r Bwrdd enillion ailbrisio ar eiddo buddsoddi o £1,291,498 ac ar eiddo rhydd-ddaliadol cyfyngedig o £590,500. Yn ogystal, cynhyrchodd y portffolio buddsoddi enillion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu, gan arwain at gyfanswm enillion net ar fuddsoddiad o £1,770,773.

Ar ôl ystyried yr holl enillion, colledion a throsglwyddiadau rhwng cronfeydd, cynyddodd cyfanswm arian yr elusen £1,564,805 (2024: gostyngiad o £601,974), gan arwain at asedau net o £13,700,724 ar ddiwedd y flwyddyn. Cofnododd y cronfeydd anghyfyngedig warged o £830,820 ar ôl enillion a throsglwyddiadau, o'i gymharu â diffyg cyn effaith enillion buddsoddi.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr asedau eiddo wedi'u hailbrisio yn darparu adlewyrchiad mwy cywir o sefyllfa ariannol a sylfaen asedau'r elusen ar ddyddiad y fantolen.

Derbyniodd y Bwrdd grant o £178,500 (2024: £170,000) gan Gorff y Cynrychiolwyr at ddibenion amrywiol. Derbyniodd y Bwrdd hefyd Gyllid Cadernid Strwythurol o £547,056 (2024: £660,234) gan Gorff y Cynrychiolwyr.

Y brif ffynhonnell gyllid arall oedd Cyfran y Weinidogaeth a oedd yn gyfanswm o £3,096,711.

- **POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu cronfeydd wrth gefn y Bwrdd yn rheolaidd fel mater o bolisi. Mae adolygiadau yn cwmpasu natur y ffrwd incwm a gwariant; yr angen i baru incwm amrywiol ag ymrwymiadau sefydlog; a natur y cronfeydd wrth gefn.

**Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol Anghyfyngedig**
Mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad y dylai ei gronfeydd wrth gefn fod o leiaf chwe mis o wariant y Gronfa Gyffredinol Anghyfyngedig i'w alluogi i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol tymor byr rhag ofn bydd diffyg refeniw annisgwyl.

Cynyddodd cyfanswm y Cronfeydd Cyffredinol Anghyfyngedig o £4,958,291 i £5,789,112 yn ystod y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i ailbrisio'r eiddo buddsoddi. O ganlyniad, cododd y Gronfa Wrth Gefn Eiddo Buddsoddi o £1,678,765 i £2,970,263. Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a gedwir bellach yn cynrychioli mwy nag wyth mis o wariant.

**Cronfeydd Dynodedig**
Caiff yr Ymddiriedolwyr, gyda chymeradwyaeth y Bwrdd, ddynodi cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ychwanegol i'w cadw at ddiben y cytunwyd arno pan ystyrir bod hyn yn ddarbodus. Mae'r cronfeydd wrth gefn dynodedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u dychwelyd i'r Cronfeydd Cyffredinol Anghyfyngedig rhag ofn nad oes cyfiawnhad dros eu cadw. Mae disgrifiad o bob cronfa ynghyd â'i defnydd arfaethedig wedi'i nodi yn Nodyn. Ar 31 Rhagfyr 2025, cyfanswm y Cronfeydd Dynodedig oedd £2,285,184 (2024: £2,254,685).

**Cronfeydd Cyfyngedig a Gwaddol**

Fel y nodir yn Nodiadau, mae'r Bwrdd yn dal ac yn gweinyddu sawl Cronfa Gyfyngedig a Gwaddol. Ar 31 Rhagfyr 2025, cyfanswm y Cronfeydd Incwm Cyfyngedig oedd £2,534,235 (2024: £1,946,127) ac roedd y Cronfeydd Gwaddol Parhaol Cyfalaf Cyfyngedig yn £3,092,194 (2024: £2,976,815). Nid oes unrhyw un o'r cronfeydd hyn ar gael at ddibenion cyffredinol y Bwrdd.

- **PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am nodi, lliniaru a/neu reoli risg. Er mwyn cyflawni hyn, cynhelir cofrestr o'r holl risgiau a nodwyd ac, ochr yn ochr â hi, ffurfiwyd strategaeth rheoli a lliniaru. Caiff ei hadolygu'n rheolaidd gan yr Ymddiriedolwyr â'r cyfrifoldeb am gyflawni'r strategaethau lliniaru a nodwyd ganddi, wedi'u dirprwyo i Ysgrifennydd yr Esgobaeth.

Mae'r Gofrestr Risg wedi nodi pedwar maes lle mae'r risg o fethu â gweithredu neu effaith y digwyddiadau yn cael ei ystyried yn 'uchel'. Dyma'r meysydd a'r strategaethau lliniaru cysylltiedig:

Tangasglu Cyfran y Weinidogaeth

- Mae ôl-ddyledion yn cael eu hadrodd bob chwarter a'u monitro gan Bwyllgor Cyfran y Weinidogaeth sy'n adrodd i'r Bwrdd. Yn ogystal, mae ôl-ddyledion yn cael eu dwyn i sylw'r Archddiaconiaid. Mae Ymddiriedolwyr/tîm cyllid yr Esgobaeth, gyda chyfranogiad yr Archddiaconiaid, yn cysylltu ag Eglwys i drafod ei hôl-ddyledion neu bryderon ynghylch talu Cyfran y Weinidogaeth
- Maen nhw'n cynorthwyo i adolygu'r cyfrifon a'r gweithdrefnau ac yn llunio adroddiad gydag argymhelliad.
- Gwneir darpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer Cyfran y Weinidogaeth hwyr sydd â risg sylweddol o fod yn gyfran na ellir ei chasglu.
- Mae'r pandemig Covid a chostau byw cynyddol wedi achosi cynnydd yn nifer yr eglwysi sydd bellach mewn ôl-ddyledion ar eu cyfraniadau i gyfran y weinidogaeth.
- Mae lefel y ddarpariaeth wedi'i gostwng yng nghyfrifon 2025 o £1,495,702 i £1,420,960 i ddarparu ar gyfer y cyfraniadau a wnaed gan eglwysi.
- Ar gyfer ôl-ddyledion Cyfran y Weinidogaeth gweler nodyn dyledwr 20.

Tanberfformiad Enillion ar Fuddsoddiadau

- Monitro parhaus gan Gynghorydd Buddsoddi'r Bwrdd (Rathbones).
- Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn gyda Chynghorydd Buddsoddi'r Bwrdd i drafod perfformiad y Portffolio.

Peidio â Thalu a/neu Leihau'r Grant Bloc gan Gorff y Cynrychiolwyr

- Sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r Grant Bloc.
- Cyswllt a thrafodaeth reolaidd â Chorff y Cynrychiolwyr ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig.
- Y Cadeirydd ac Ysgrifennydd yr Esgobaeth i fonitro.

Diogelu Data

- Penodi gweithiwr dynodedig.
- Cyswllt rheolaidd â chynghorwyr cyfreithiol y Bwrdd.

- **POLISI BUDDSODDI**

Mae Portffolio yr Esgobaeth yn cael ei reoli ar sail rheolaeth yn ôl disgresiwn gan Rathbones. Yr amcan yw rhoi pwys ar gyfanswm yr enillion yn hytrach nag enillion penodol ar incwm neu adbrisiant cyfalaf ar wahân.

**Amcanion Buddsoddi**
Mae'r Bwrdd yn ceisio cynhyrchu'r enillion ariannol gorau heb gymryd risg ormodol. Yr amcan buddsoddi yw cydbwyso enillion incwm a chyfalaf.

Dylid rheoli'r asedau i gynnal y gwerth cyfalaf gwirioneddol o leiaf, tra'n cynhyrchu lefel gynaliadwy o incwm buddsoddi i gefnogi gweithgareddau Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi.

Lle bo'n bosibl, dylid gwella gwerth yr asedau er mwyn cadw i fyny â chwyddiant dros y tymor hwy.

Mae'r Bwrdd yn mabwysiadu dull cyfanswm yr enillion i fuddsoddi, gan gynhyrchu'r enillion buddsoddi o incwm ac enillion neu golledion cyfalaf. Os disgwylir, mewn unrhyw flwyddyn, na fydd cyfanswm yr enillion yn ddigonol i fodloni'r gwariant a gyllidebwyd, yn yr hirdymor bydd gwerth gwirioneddol buddsoddiadau'r Bwrdd yn dal i gael ei gynnal yn unol â'r amcan buddsoddi uchod.

Roedd Rathbones wedi newid y meincnod y mesurir perfformiad yn ei erbyn i feincnod pwrpasol o'r FTSE i fynegai cytbwys y WMA; ar sail ei anwadalrwydd.

**Risg**
Y cyfeiriad buddsoddi cyffredinol yw gwneud y mwyaf o'r enillion sy'n gyson â'r risgiau y mae'r Bwrdd yn fodlon eu derbyn. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod risg (h.y. y potensial ar gyfer amrywioldeb gwerthoedd asedau) a'r potensial o golli pŵer prynu (oherwydd chwyddiant) yn bresennol i ryw raddau gyda phob math o gyfryngau buddsoddi.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn lefel ganolig o risg.

Bydd yr Ymddiriedolwyr yn goddef anwadalrwydd y gwerth cyfalaf, cyn belled â bod y Bwrdd yn gallu bodloni ei ymrwymiadau gwariant tymor byr.

Mae'r portffolio wedi'i arallgyfeirio er mwyn darparu sicrwydd rhesymol na fydd unrhyw un dosbarth o fuddsoddiad yn cael effaith anghymesur ar gyfanswm y portffolio. Gallai dosbarthiadau asedau gynnwys arian parod, bondiau, ecwiti, eiddo, ecwiti preifat, nwyddau ac unrhyw ased arall sy'n cael ei ystyried yn addas, gan gofio'r cyfyngiadau moesegol. Rhaid i fondiau ac ecwitïau gael eu dyfynbrisio ar gyfnewidfa fuddsoddi gydnabyddedig a rhaid i ymddiriedolaethau unedol a chwmnïau buddsoddi penagored gael eu hawdurdodi o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.

Er mwyn cyflawni ei amcan, mae'r Bwrdd wedi pennu'r ystod ganlynol o ran rhaniadau asedau:

Arian parod 0% - 7%
Llog Sefydlog 15% - 35%
Buddsoddiadau ecwiti 53 80%

O fewn y dyraniad ecwiti, caniateir daliadau tramor hyd at 50%.

Gall y cymysgedd asedau gael ei newid o bryd i'w gilydd, yn strategol neu'n dactegol, yn seiliedig ar ragolygon y marchnadoedd economaidd a gwarantau, yn ogystal â gofynion incwm a gall Cadeirydd ac Is-gadeiryddion y Bwrdd Cyllid, os ystyrir hynny'n briodol, newid yr ystod uchod o raniadau asedau i ymateb i rymoedd y farchnad. Ni ddylai lefel risg gyffredinol yr asedau, o ran eu potensial ar gyfer amrywiadau mewn prisiau, fod yn eithafol.

Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi yn gyfrifol am nodi a monitro rheolwyr buddsoddi addas yn rheolaidd. Sail tâl y rheolwyr buddsoddi fydd yr hyn a fanylir arno ar adeg eu penodi'n rheolwyr buddsoddi. Mae'r cynghorwyr yn deall y dylid rhoi rhybudd rhesymol i'r Ymddiriedolwyr os bydd y rheolwyr buddsoddi yn diwygio eu cyfundrefn ffioedd a chomisiwn.

Sterling yw arian cyfred sylfaenol y portffolio buddsoddi.

**Gofynion Hylifedd**

Yn gyffredinol, nid yw cronfeydd buddsoddi yn cael eu dadfuddsoddi, eu nod yw darparu twf incwm a chyfalaf. Mae arian sy'n debygol o fod yn ofynnol ar fyr rybudd yn cael ei ddal gan yr ymgynghorwyr buddsoddi ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y prif bortffolio. Ni ddylai'r Portffolio ddal unrhyw symiau sylweddol o arian parod oni bai y gofynnir am hynny ar gyfer prosiect penodol.

Dim ond ar 1 Ionawr, 1 Ebrill, 1 Gorffennaf ac 1 Hydref mewn unrhyw flwyddyn y gellir ymgorffori arian yn y prif bortffolio.

Mae incwm sydd wedi cronni ym mhob mis i'w drosglwyddo i gyfrif banc Gwaddolion Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi o fewn 30 diwrnod i ddiwedd y mis priodol.

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

**Gorwel Amser**
Disgwylir i'r Bwrdd fodoli am byth a dylid rheoli buddsoddiadau i gyflawni'r amcan buddsoddi a sicrhau'r cynaliadwyedd hwn.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu gorwel amser buddsoddi hirdymor.

**Buddsoddi Moesegol**
Fel Eglwys Gristnogol, mae'r Esgobaeth yn ceisio cydweithredu â phresenoldeb gweithredol Duw yn y byd a chyhoeddi gwerthoedd teyrnas Dduw. Mae hyn yn golygu bod gan yr Eglwys ddiddordeb arbennig mewn hyrwyddo popeth sy'n hybu cyfiawnder a heddwch, sy'n galluogi ffyniant dynol, sy'n anrhydeddu'r greadigaeth ac sy'n adeiladu cymunedau dynol creadigol.

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn dymuno cael polisi buddsoddi moesegol sy'n gyson â hyrwyddiad ei nodau a'i hamcanion. Mae'r Bwrdd yn credu ei bod yn gwbl briodol ac yn bosibl gweithredu polisi o'r fath ochr yn ochr â'r angen i sicrhau'r elw gorau o'n buddsoddiadau, a defnyddio ein buddsoddiadau fel modd moesegol o gyfrannu at gost gweinidogaeth a chenhadaeth yn y Dalaith.

Nod yr Ymddiriedolwyr yw buddsoddi mewn cwmnïau llwyddiannus sydd wedi ymrwymo i ddatblygu eu busnes er budd eu cyfranddalwyr, eu cwsmeriaid, eu cymunedau lleol a'u gweithwyr drwy weithredu:

- Arferion cyflogaeth cyfrifol.
- Llywodraethu corfforaethol cydwybodol.
- Polisïau ac arferion sy'n dangos parch priodol at yr amgylchedd ac at les y drefn a grëwyd.
- Polisïau sy'n sensitif i hawliau dynol ac i les unigolion a'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt.
- Arferion masnachu teg.

Yn ei pholisi ar gyfer buddsoddi, bydd yr Eglwys yng Nghymru yn gwneud ei gorau glas i beidio â bod yn gysylltiedig â chwmnïau y mae eu cynnyrch neu bolisïau yn gwrthdaro â'r nodau hyn nac i fuddsoddi mewn cwmnïau sydd:

- yn gyfrifol am anrheithio'r amgylchedd yn ddi-hid.
- yn gyfrifol am unrhyw beth sy'n bygwth heddwch, diogelwch a lles cyffredin.
- yn cam-fanteisio, yn gwaradwyddo, yn llygru neu'n diraddio dynolryw, yn enwedig y tlawd a'r ariannol fregus.
- yn ddifater ynghylch lles anifeiliaid.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cwmnïau y gallwn fuddsoddi ynddynt, ac mae'n cadw'r hawl i wneud penderfyniadau buddsoddi fesul achos. Bydd y Bwrdd yn ymdrechu i ymgysylltu â chwmnïau sy'n torri'r polisi hwn neu a allai wneud hynny, neu pan fo pryderon yn codi am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu cyn ystyried dadfuddsoddi.

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025**

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn dymuno bod yn fuddsoddwr gwybodus a chyfrifol, ac i'r perwyl hwn fe'i cynrychiolir ar Grŵp Buddsoddwyr yr Eglwys, sy'n fodd o gyrchu ymchwil, gweld gwybodaeth ddibynadwy, rhannu arferion gorau â sefydliadau eraill sy'n aelodau, ac arfer dylanwad cyfranddalwyr cyfunol.

Mae perthynas werthfawr yn bodoli rhwng y Pwyllgor Buddsoddi a Grŵp Buddsoddi Moesegol yr Eglwys yng Nghymru, y mae'r Pwyllgor yn cyfeirio achosion problematig ato ac yn derbyn adroddiad blynyddol ganddo.

Mae Esgobaeth Tyddewi yn cefnogi'n llwyr bolisi'r Eglwys yng Nghymru fel y cyfeirir ato uchod.

Polisi'r Bwrdd yw peidio â buddsoddi, fel arfer nac yn fwriadol, mewn unrhyw gwmni:

- Sy'n cael mwy na 10% o'i drosiant o brif ffocws ar gamblo, neu o gynhyrchu neu werthu diodydd alcoholaidd neu gynhyrchion tybaco;
- Sy'n cael mwy na 5% o'i drosiant o bornograffi, gweithgareddau benthyca rheibus neu ledaeniad arfau;
- Sy'n cael mwy na 5% o'i drosiant o gynhyrchu neu echdynnu tanwydd ffosil.

**Rheoli, Adrodd a Monitro**

Mae'r Bwrdd wedi penodi cwmni rheoli buddsoddiadau proffesiynol i reoli'r asedau yn ôl disgresiwn yn unol â'r polisi hwn. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â'r holl gyfreithiau, rheolau a rheoliadau perthnasol.

Mae'r rheolwr buddsoddi yn gyfrifol am warcheidiaeth yr asedau. Mae'n ofynnol i'r rheolwr gynhyrchu adroddiadau prisio a pherfformiad chwarterol sy'n cwmpasu'r canlynol:

- Rhestr o'r holl fuddsoddiadau a ddelir, ynghyd â'u costau llyfr priodol, eu gwerth cyfredol ar y farchnad a'r incwm a'r elw amcangyfrifedig.
- Dadansoddiad perfformiad ar gyfer y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad (chwarterol).
- Atodlen o'r Trafodion sy'n manylu ar bryniannau a gwerthiannau.
- Manylion am unrhyw drafodion nad ydynt yn rhai marchnad ac am faterion hawliau, cyfalafiadau neu gamau corfforaethol eraill.
- Adolygiad manwl o amgylchedd y farchnad ar gyfer y cyfnod gan gynnwys sylwadau penodol ar y daliadau unigol yn y portffolio ac unrhyw ystyriaethau economaidd eraill sy'n berthnasol.

Mae Is-bwyllgor Buddsoddi'r Bwrdd yn gyfrifol am gytuno ar strategaeth a monitro'r asedau buddsoddi. Mae'r Is-bwyllgor yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn i awdurdodi unrhyw dynnu arian yn ôl ac ymgorfforiadau, ac yn adolygu'r Portffolio, gan gynnwys cynnal dadansoddiad o'r enillion, y risg a'r dyraniad asedau. Caiff perfformiad ei fonitro yn erbyn meincnod y cytunwyd arno (meincnod pwrpasol Rathbones).

Mae'n ofynnol i'r rheolwr buddsoddi fod yn bresennol mewn dau o gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi. Yn ogystal â chydymffurfio â'r gofynion penodol a nodir yn y datganiad polisi buddsoddi, rhaid i'r rheolwr buddsoddi roi sylw i'r pŵer cyffredinol o fuddsoddi a ymgorfforir yn Adran 3 Deddf yr Ymddiriedolwyr 2000. Dylai pob buddsoddiad fod yn addas ac yn gyffredinol yn gyfystyr â gradd o arallgyfeirio fel sy'n ofynnol gan Adran 4 Deddf Ymddiriedolwyr 2000.

Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi i adrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Gwaith y Bwrdd.

## CYNLLUNIAU AR GYFER CYFNODAU YN Y DYFODOL

Mae'r Bwrdd yn ystyried y materion tymor byr a chanolig canlynol:

- **Deddf Elusennau 2011**
  Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o oblygiadau'r ddeddfwriaeth hon ar blwyfi unigol ac, ar y cyd â Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru, mae'n cynghori ac yn cynorthwyo plwyfi. Ar hyn o bryd dim ond y plwyfi hynny sydd ag incwm o fwy na £100,000 sydd wedi gorfod cofrestru. Mae plwyfi sydd ag incwm o dan £100,000 yn parhau i gael eu heithrio ac nid oes angen iddynt gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac mae'r eithriad dros dro hwn wedi'i ymestyn tan 31 Mawrth 2031.

- **Cofrestru Tir**
  Bydd unrhyw dir a nodwyd fel tir sy'n cael ei ddal gan y Bwrdd yn cael ei gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir fel mater o bolisi. Mae'r Bwrdd yn parhau i nodi'n rhagweithiol y sail y mae'n dal y tir/eiddo e.e. fel Ymddiriedolwr gwarcheidiaeth, p'un a yw'n ddarostyngedig i ddychweliad yn ôl i'r perchennog gwreiddiol neu a yw'n eiddo i'r Bwrdd.

- **Cyfran y Weinidogaeth**
  Ymdrechu i reoli'r cynnydd o ran Cyfran y Weinidogaeth er mwyn sicrhau ei bod yn gynaliadwy ac yn gasgladwy ac i fonitro lefel yr ôl-ddyledion.

- **Strategaeth yr Esgobaeth**
  Mae Esgob Tyddewi a'r Bwrdd yn gweithio gyda'i gilydd i greu a gweithredu strategaeth ar gyfer yr Esgobaeth a fydd yn ymateb i'r heriau ariannol ac economaidd presennol sy'n wynebu'r Eglwys ac yn diwallu anghenion yr Esgobaeth.

  *"Tocio am Dyfiant"* yw Strategaeth bresennol yr Esgobaeth, ac mae'n gynllun pedwar cam i archwilio'r Esgobaeth a hefyd i edrych ar ble mae angen targedu adnoddau ar gyfer y dyfodol a lle mae cymryd mesurau tocio yn anochel. Mae grŵp arbennig – y Grŵp Garddio - wedi'i benodi i oruchwylio'r strategaeth hon, ac mae gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth gynrychiolaeth ar y grŵp hwn. Lansiwyd y Strategaeth mewn Cynhadledd Esgobaethol arbennig ym mis Gorffennaf 2024 a chwblhawyd Cam Un erbyn diwedd Rhagfyr 2024.
  Y nod yw cwblhau Cam Dau erbyn Hydref 2025 a Cham Tri erbyn Ebrill 2026, gyda Cham Pedwar, yr olaf, yn cael ei gwblhau erbyn Hydref 2026.

- **Diogelu data**
  Mae'r Bwrdd yn parhau i weithio i nodi a sicrhau bod yr holl wybodaeth/data a gedwir yn yr Esgobaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae'r Bwrdd yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant.

- **CYFANSODDIAD - AELODAETH**

  Penodir aelodau'r cwmni am dymor o dair blynedd. Ar ôl mabwysiadu'r Erthyglau Cymdeithasu diwygiedig, mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys:

  - Yr Esgob
  - Cadeirydd (a benodir gan yr Esgob)
  - Wyth Aelod Ex-Officio (y Deon, yr Archddiaconiaid, Cadeirydd Bwrdd y Persondai, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth a Chofrestrydd yr Esgobaeth)
  - Chwe aelod Lleyg Enwebedig (dau o bob Archddiaconiaeth)
  - Tri aelod Lleyg Etholedig (un o bob Archddiaconiaeth)
  - Tri Aelod Clerigol Enwebedig (un o bob Archddiaconiaeth ddaearyddol)
  - Pedwar Aelod Cyfetholedig (y gall dim ond un ohonynt fod yn glerig)

- **AELODAETH – SEFYDLU A HYFFORDDI**

  Mae'r Bwrdd wedi darparu hyfforddiant i'w aelodau sy'n briodol i'w dyletswyddau fel Ymddiriedolwyr Elusennau ac fel aelodau o un o Bwyllgorau yr Esgobaeth ac mae'n datblygu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

- **PWYLLGORAU**

  Mae gan Fwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi y Pwyllgorau canlynol.

  - **Y Pwyllgor Gwaith**
    Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am reoli cyllid ac asedau'r Esgobaeth.
  - **Bwrdd y Persondai**
    Mae Bwrdd y Persondai yn gyfrifol am gynnal a chadw pob persondy, eu cynnal a'u hatgyweirio ac am brynu a gwerthu persondai, yn ôl yr angen.
  - **Y Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig**
    Mae'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig yn bwyllgor statudol ac mae'n gyfrifol am ddarparu cymorth ariannol tuag at brosiectau atgyweirio ac adnewyddu mewn ysgolion eglwysig, cyfarwyddo prosiectau newydd a rheoli/gwaredu eiddo ysgolion nad ydynt bellach ar waith.

# ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

## Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2025

- **Yr Is-bwyllgor Buddsoddi**
  Mae'r Is-bwyllgor Buddsoddi, gyda chyngor gan Gynghorwyr Buddsoddi'r Bwrdd, wedi'i awdurdodi i wneud yr holl benderfyniadau sy'n angenrheidiol i reoli buddsoddiadau'r Bwrdd o fewn strategaeth a pholisïau'r Bwrdd.

- **Pwyllgor Apeliadau Cyfran y Weinidogaeth**
  Mae Pwyllgor Apeliadau Cyfran y Weinidogaeth yn gyfrifol am weinyddu'r "Weithdrefn Apeliadau" ar gyfer Dyrannu Cyfran y Weinidogaeth. Gall y Pwyllgor, yn ôl ei ddisgresiwn, pan fo ôl-ddyledion Cyfran y Weinidogaeth hanesyddol yn bodoli, ond nid o ganlyniad i apeliadau blaenorol i'r Pwyllgor neu yn sgil cyflwyno ystadegau anghywir, dderbyn cais i ystyried yr amgylchiadau hanesyddol sydd wedi arwain at yr ôl-ddyledion.

- **Yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol**
  Mae'r Is-bwyllgor Adnoddau Dynol yn gyfrifol am ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer staff lleyg, yn unol â'r ddeddfwriaeth ac arfer da presennol. Mae ei gylch gwaith yn cwmpasu ystyried lefelau staffio yn Swyddfa'r Esgobaeth a chyflogau staff lleyg.

- **Y Pwyllgor Archwilio a Risg**
  Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am adolygu rheolaethau mewnol y Bwrdd ac adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar unrhyw faterion sydd wedi'u codi gan Archwilwyr y Bwrdd ar ôl cwblhau'r archwiliad blynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu Cofrestr Risg y Bwrdd yn rheolaidd, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a llywodraethu.

- **Yr Is-bwyllgor Eiddo**
  Mae'r Is-bwyllgor Eiddo yn gyfrifol am reoli eiddo buddsoddi'r Bwrdd, eiddo a ddelir fel Ymddiriedolwr gwarchod a goruchwylio cynllunio strategol y portffolio eiddo.

- **Y Pwyllgor Cyllid**
